# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanerch**

**Neuadd Llanerch**
**Heol Nant Y Felin**
**Llanerch**
**Llanelli**
**SA15 3PA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/09/2023

# Cylch Meithrin Llanerch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanerch |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r mwyafrif o'r plant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd wedi'u paratoi ar eu cyfer. Maent yn cael cyfle i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain a chaiff eu hanghenion eu diwallu a'u dewisiadau eu bodloni ar y cyfan. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn dda. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'r gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt, gan feithrin sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo llesiant, diogelwch a ffordd iach o fyw. Maent yn cynnig rhai gweithgareddau i hybu diddordebau'r plant. Maent yn gosod amodau realistig ac yn gyson gyda'u strategaethau i reoli ymddygiad. Mae'r staff yn deall anghenion a galluoedd unigol y plant ac yn eu diwallu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r ardal chwarae dan do yn fawr ac wedi'i threfnu'n ddigonol. Mae ardal awyr agored fach ar gael, sy'n cael ei defnyddio'n achlysurol. Mae amrywiaeth addas o adnoddau hygyrch ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant ac yn eu rhoi ar waith. Mae'r meysydd sydd wedi'u hamlygu fel rhai i'w datblygu wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad.

| **Llesiant** | **Digonol** |
|---|---|

Caiff y plant y cyfle i gyfathrebu a gwneud dewisiadau, a chaiff llais y plentyn ei gydnabod. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd mae'r plant yn dewis yr hyn y maent am ei fwyta. Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi, a gwelsom hyn pan oedd y plant yn dewis lle i chwarae. Mae hyn am eu bod yn gallu dewis cyfarpar ac adnoddau a'u bod yn cael y rhyddid i'w defnyddio. Gwelsom y plant yn hapus i rannu'r si-so plastig â'i gilydd.

Mae'r mwyafrif o'r plant wedi setlo ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd wedi'u paratoi ar eu cyfer. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a chartrefol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn rhyngweithio'n hyderus. Fodd bynnag, roedd cyfnodau lle'r oedd rhai o'r plant yn ei chael hi'n anodd rhannu adnoddau a chymryd eu tro. Cawsant gymorth i ddeall pa reolau cymdeithasol i'w dilyn. Mae'r lleiafrif yn cyfathrebu'n hyderus ac yn ymateb yn dda. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, dywedodd un o'r plant ei fod am chwarae â'r llythrennau yn yr hambwrdd tywod.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn weithgar wrth iddynt chwarae. Maent yn dangos peth diddordeb a mwynhad wrth gymryd rhan, ond ni chânt y cyfle i fwrw ymlaen â'u diddordebau er mwyn datblygu eu dysgu ymhellach. Roedd rhai o'r plant yn dyfalbarhau i gwblhau'r gweithgareddau a oedd o ddiddordeb iddynt er enghraifft chwarae rôl gyda doliau, ac roedd eraill yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardal dan do.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn cael y cyfle i feithrin eu sgiliau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol drwy'r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Mae'r plant yn datblygu eu chwarae yn annibynnol a gyda chymorth y staff. Er enghraifft, roedd y plant iau yn ymwneud â'i gilydd mewn chwarae dychmygol gyda thŷ doliau. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i feithrin sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfleusterau'r ystafell ymolchi i olchi a sychu eu dwylo, ac maent yn bwyta'n annibynnol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd yn gyfyngedig am fod y staff yn arllwys y diodydd ac yn dosbarthu'r byrbryd i'r plant.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau priodol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau sy'n hybu iechyd a diogelwch y plant. Mae polisi diogelu addas ar waith ac mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant amddiffyn plant diweddaraf. Mae pawb bron yn deall y broses i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am blentyn neu os bydd cyhuddiad yn cael ei wneud yn erbyn aelod o staff neu'r arweinydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion cyson o bresenoldeb y plant ynghyd â'r amseroedd y maent yn bresennol. Maent yn sicrhau bod systemau priodol ar waith i gofnodi damweiniau ac y caiff meddyginiaeth ei rhoi'n ddiogel. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn sicrhau bod cofnodion caniatâd y plant i dderbyn triniaeth feddygol frys wedi'u cwblhau'n llawn.

Mae'r staff yn paratoi byrbrydau iach ar gyfer y plant. Ar ddiwrnod yr ymweliad, cynigwyd ffrwyth ac iogwrt i'r plant ynghyd â dŵr neu laeth i'w yfed. Mae'r staff yn sicrhau bod dŵr yfed bob amser ar gael i'r plant yn ystod y sesiwn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod system ar waith i reoli alergeddau a dewisiadau bwyd. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau paratoadau byrbryd, gan gynnwys gwisgo menig a ffedogau, a sicrhau eu bod yn storio'r bwyd a diod yn gywir. Mae'r staff yn gweithredu gweithdrefnau hylendid da, ac mae hynny ar waith hefyd pan fyddant yn newid cewynnau. Cadarnhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fod mat newid cewynnau newydd wedi cael ei brynu yn dilyn yr ymweliad ac y bydd datblygiadau yn cael eu gwneud yn yr ardal newid cewynnau, a fydd yn cynnwys bwrdd newid cewynnau. Wrth fynd i'r toiled, mae'r staff yn cefnogi'r plant i fod yn annibynnol, er enghraifft drwy adael iddynt olchi eu dwylo eu hunain. Mae'r arfer o olchi dwylo cyn amser byrbryd a chinio yn parhau.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygu'r plant drwy'r profiadau a ddarperir a thrwy ymgysylltu â nhw. Mae ganddynt ddull hyfryd o ymdrin â'r plant, ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â nhw, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfathrebu clir i gefnogi eu datblygiad ieithyddol ac maent yn annog y plant i gymdeithasu, i gydweithio ac i barchu ei gilydd. Maent yn rhyngweithio'n rheolaidd â'r plant ac yn cynnig cyfleoedd i ystyried teimladau ac ymddygiadau, yn ogystal â rheolau a ffiniau cymdeithasol. Mae ganddynt bolisi rheoli ymddygiad addas ac maent yn defnyddio dulliau cadarnhaol fel esbonio a thynnu sylw er mwyn rheoli mân broblemau. Yn ystod amser chwarae, mae'r staff yn awgrymu ffyrdd y gallant rannu a chymryd eu tro wrth chwarae gyda'r cadeiriau gwthio a'r doliau. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau unigol y plant. Maent yn canmol y plant yn rheolaidd, ar lafar ac yn weledol drwy ddefnyddio sticeri.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu gweithgareddau yn anffurfiol, ac o ganlyniad, yn cyfyngu ar amser chwarae a dysgu'r plant. Mae'r staff yn cydnabod y plant sydd angen cymorth neu ymyriad ychwanegol ac yn trafod hyn gyda'r rhieni a'r gofalwyr. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn cofnodi'r arsylwadau ar y plant na'u datblygiad. Dywedodd y bobl sy'n

rhedeg y lleoliad wrthym eu bod wedi nodi hyn fel rhywbeth y maent angen iddynt ei ddatblygu yn eu hymarfer. Mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn barhaus gyda'r plant.

| Yr Amgylchedd | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel ac yn lân. Er enghraifft, maent yn cadw'r drysau allanol ar glo ac yn cadw cofnodion o ymwelwyr â'r lleoliad. Mae asesiadau risg addas ar waith ynghyd â chofnodion asesiadau risg dyddiol. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn paratoi'r neuadd bob dydd ac yn rhoi'r adnoddau i gadw ar ddiwedd pob sesiwn. Maent yn cynnal ymarferion achlysurol ar wagio'r adeilad os bydd tân, fodd bynnag nid yw'r rhain yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r larwm, na'u bod yn gwybod sut i adael y safle yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hwylus i'r staff. Mae angen diweddaru'r pecyn cymorth cyntaf am fod dyddiadau rhai o'r eitemau wedi dod i ben. Caiff pob sylwedd peryglus ei gadw allan o gyrraedd y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd croesawgar a chyfeillgar sy'n addas i'r plant. Mae'r lle yn olau ac yn llachar, ac mae digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod arddangosfeydd ar y waliau sy'n dangos gwaith celf y plant. Gall y plant ddefnyddio'r brif neuadd yn ogystal â chyntedd yr adeilad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn defnyddio ardal y fynedfa i ddarparu bwrdd arddangos gwybodaeth i rieni, ond mae angen diweddaru'r bwrdd hwn. Maent yn sicrhau bod bachau cotiau ar uchder priodol i'r plant sy'n eu helpu i fod yn annibynnol. Mae'r dodrefn yn addas i oedran y plant, gan hybu annibyniaeth a sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn ddiogel wrth chwarae.
Mae ardal chwarae fach yn yr awyr agored ar gael i'r plant; ond nid oedd yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr ymweliad gan nad oedd y tywydd yn addas.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth ddigonol o adnoddau, sy'n briodol ar gyfer amrywiaeth o oedrannau a diddordebau. Maent wedi'u harddangos ar fyrddau lefel isel, a gall y plant gael gafael ar lawer ohonynt yn annibynnol. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn sicrhau bod adnoddau naturiol a darnau rhydd ar gael i'r plant er mwyn datblygu eu chwilfrydedd ymhellach. Mae adnoddau pellach ar gael mewn cwpwrdd storio. Roedd yr holl adnoddau a welsom o ansawdd da, yn lân ac mewn cyflwr da.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus ac maent yn awyddus i reoli a gweithredu'r gwasanaeth mewn ffordd briodol. Yn dilyn yr ymweliad arolygu, mae datganiad o ddiben cynhwysfawr ar waith, sy'n adlewyrchu arferion cyfredol y lleoliad ac sy'n galluogi rhieni i wneud penderfyniad gwybodus. Mae gan y gwasanaeth ffeil gynhwysfawr o bolisïau'r Mudiad Meithrin.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cofnodion o'r plant a'r staff gofal sy'n bresennol bob dydd. Mae yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus wedi'i drefnu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn briodol ac yn sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd drefnus, fel eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio ac yn diwallu anghenion y plant yn llawn. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau gan y person â chyfrifoldeb a bod polisi drws agored os bydd unrhyw faterion yn codi. Nid yw rheoli perfformiad bob amser yn effeithiol. Ni chwblhawyd sesiynau goruchwylio nac arfarniadau rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr ar y cyfan er mwyn diogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o'r staff wiriadau addasrwydd cyfoes. Maent yn annog hyfforddiant parhaus er mwyn cynnig datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, roedd rhai dogfennau gofynnol ar goll o ffeiliau'r staff, fel hanes gwaith blaenorol a gwiriadau dulliau adnabod. Cymerwyd camau ar unwaith i unioni hyn yn dilyn yr arolygiad ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cadarnhau bod ffeiliau'r staff bellach yn gwbl gyflawn.

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau addas ac wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol fel hylendid bwyd a diogelu. Fodd bynnag, nid oes gan bob aelod o'r staff dystysgrif cymorth cyntaf ddilys. Nid yw'r staff sy'n gymwys yn gweithio yn y lleoliad bob dydd. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym fod rhai o'r tystysgrifau ar goll, ac o ganlyniad nad ydynt yn gallu dangos tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant. Nodir y maes hwn fel maes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu ar unwaith. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fod trefniadau ar waith i'r staff fynychu cwrs cymorth cyntaf yn y dyfodol agos.

Cwblhawyd adolygiad o ansawdd y gofal, sy'n ystyried barn defnyddwyr y gwasanaeth ac yn nodi camau datblygu ar gyfer y dyfodol. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn gweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'i rolau a'i gyfrifoldebau, ac yn cefnogi'r plant mewn modd priodol. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd er mwyn trafod newidiadau a gweithgareddau a rhannu gwybodaeth.

Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned ehangach yn briodol. Mae'r staff yn esbonio eu bod yn cael trafodaethau rheolaidd â'r rhieni pan fyddant yn gollwng ac yn casglu eu plant. Maent hefyd yn defnyddio tudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu lluniau. Ceir cysylltiadau â'r ysgol gynradd leol gan fod y lleoliad yn cynnig gwasanaeth gollwng a

chasglu o'r ysgol, ac mae'r cysylltiadau hyn yn helpu'r plant i drosglwyddo i addysg amser llawn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw wedi sicrhau cyfleoedd rheolaidd ar gyfer sesiynau goruchwylio unigol nac arfarniadau blynyddol i bob aelod o'r staff. | Newydd |
| 24 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau bod un swyddog cymorth cyntaf cymwys yn bresennol drwy'r amser. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hyderus o ran y broses i'w dilyn os bydd ganddo bryderon mewn perthynas â diogelu. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Datblygu arferion cynllunio, arsylwi ac asesu er mwyn helpu i olrhain datblygiad y plant a chynllunio gweithgareddau i bob oedran sy'n cefnogi eu diddordebau a'r camau nesaf yn eu dysgu. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod cydsyniad wedi'i roi i bob plentyn gael triniaeth feddygol frys. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau y cynhelir ymarferion rheolaidd ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân. |
| Safon 23 - Cyfarpar | Sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r plant sy'n eu hannog i fod yn fwy chwilfrydig, gan gynnwys adnoddau naturiol a darnau rhydd. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|

| Argymhelliad/argymhellion |
| --- |
| Sicrhau y caiff annibyniaeth y plant ei hybu'n barhaus. |
| Sicrhau bod yr holl wybodaeth a gaiff ei harddangos i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gywir ac yn gyfredol, er enghraifft y strwythur arweinyddiaeth a staffio. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/12/2023